# PWYLLGOR APELAU

Dydd Gwener, 24 Chwefror 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.P. Jenkins, B.A.L. Roberts and S.E. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Stuart, Uwch-Bartner Busnes (Adnoddau Dynol)
C. Jones, Cyfreithiwr Cynorthwyol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Pwyllgor 2 - 3 Heol Spilman - 9.30 am - 4.00 pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Williams.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd dim buddiannau.

**3. NAD YDYW I'W GYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 na fyddai'r cyhoedd yn cael aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd hynny ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007), sef gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddadlennu enw unigolyn.**

**4. YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN YR AMGYLCHEDD**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch y canlynol.**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1988. Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl clориannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur, ynghyd â'r Swyddog Ymchwilio penodedig a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (dosbarthwyd copïau o'r protocol ym mhecyn yr agenda.)

Gan hynny, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan y Swyddogion Ymchwilio, a chynrychiolydd undeb llafur yr apelydd.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried yr apêl tan 27 Chwefror 2017.**

## 5. Y CYFARFOD YN AILYMGYNNULL

Roedd y cyfarfod wedi ailymgynnull yn Ystafell Pwyllgorau 2, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin ddydd Llun, 27 Chwefror 2017 am 9.15am.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Cadeirydd);
**Y Cynghorwyr:**
J.P. Jenkins, B.A.L. Roberts a S.E. Thomas.

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mrs J. Stuart | - | Pen-swyddog Adnoddau Dynol |
| Mr C. Jones | - | Cyfreithiwr Cynorthwyol |
| Mr M. Davies | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

## 6. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.M. Allen a J. Williams.

## 7. APÊL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN YR AMGYLCHEDD

Estynnodd y Cadeirydd groeso'n ôl i'r apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur, ynghyd â'r Swyddogion Ymchwilio penodedig a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol, a dywedodd mai diben y cyfarfod oedd parhau â'r gwrandawiad ynghylch apêl yn erbyn diswyddiad a oedd wedi ei ohirio ar 24 Chwefror 2017. Yna bu i'r cynrychiolydd undeb llafur barhau â'i sylwadau ar ran yr apelydd. Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd. Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd a'r Swyddogion Ymchwilio,

**PENDERFYNWYD**

**7.1** bod yr apêl yn cael ei gwrthod a bod y penderfyniad i ddiswyddo'r apelydd, a oedd wedi'i ategu mewn llythyr dyddiedig 6 Hydref 2016 yn dilyn Gwrandawiad Disgyblu Ffurfiol ar 30 Medi 2017, yn cael ei gadarnhau;

**7.2. bod yr apelydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r rhesymau llawn dros wrthod yr apêl.**

Cafodd y naill ochr a'r llall eu galw yn ôl i'r cyfarfod a'u hysbysu ynghylch penderfyniad y Pwyllgor.

________________________ ________________
**CADEIRYDD** **DYDDIAD**